HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru **diogelach**

NORTH WALES POLICE
A **safer** North Wales

SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES




# SIARTER GWERTH CYMDEITHASOL 2017

## SIARTER GWERTH CYMDEITHASOL

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHThGC) wedi datblygu'r **siarter gwerth cymdeithasol gwirfoddol** hon er mwyn cynorthwyo dal ysbryd cyflwyno lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i Ranbarth Gogledd Cymru ac ychwanegu at werth enw da ei gyflenwyr. Mae'r siarter yn berthnasol at gontractau yn bennaf islaw £50,000 lle mae cyflenwyr yn ymroi'n wirfoddol i gefnogi agenda gwerth cymdeithasol CHThGC mewn ffordd ddigonol.








Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am gynnal gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol i Ogledd Cymru. Mae'n hanfodol fod comisiynu effeithiol mewn lle er mwyn sicrhau fod holl asiantaethau partner a chyflenwyr yn chwarae eu rôl wrth greu cymunedau diogelach a chryfach.

Cred CHThGC a HGC os oes gan gyflenwr y cyfle i sicrhau busnes yng Ngogledd Cymru, yna maent hefyd â chyfrifoldeb gwneud eu rhan i'r Rhanbarth.

### Deddf Gwerth Cymdeithasol Gwasanaethau Cyhoeddus 2012

Mewn cydweithrediad â **Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus (Gwerth Cymdeithasol) 2012; Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015** mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHThGC) yn anelu creu cymunedau cynaliadwy a diogelach, creu economi gryfach, lleihau defnydd ynni a chreu Gogledd Cymru bywiog a chyfrifol. Mae'n ymroddedig i Werth Cymdeithasol ac ymdrech sicrhau yr ystyrir materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn ystod holl gyfnodau ein proses gomisiynu a chaffael ac fel rhan o gost oes contract. Mae CHThGC yn anelu sicrhau Gwelliannau mewn Cyfalaf Cymdeithasol fel dinasyddiaeth, cymdogrwydd, rhwydweithiau cymdeithasol a chyfranogiad sifil.





## Y Siarter ar Waith

Mae'r siarter yn god ymarfer gwirfoddol sy'n gwahodd cyflenwyr gynnig beth a welent yn briodol a chymesur yn unol â'r gwaith maent yn ei wneud. Rhestrir enghreifftiau o **beth mae pobl wedi bod yn ei wneud** isod. Ceir ystod o gynnig profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli i noddi timoedd chwaraeon lleol a chynorthwyo banciau bwyd.

## Beth mae pobl wedi bod yn ei wneud?



- Cyfleoedd mentora a phrofiad gwaith i bobl ifanc neu ddi-waith
- Noddi tîm chwaraeon lleol neu drefnu digwyddiadau a chystadlaethau
- Rhoi eich amser ac arbenigedd i gynorthwyo prosiectau cymunedol
- Rhoi deunyddiau neu fenthyg offer i gynorthwyo prosiectau cymunedol
- Cynorthwyo staff neu gymunedau ddysgu neu siarad Cymraeg
- Defnyddio gwirfoddolwyr gan roi'r cyfle iddynt fagu profiad gwaith gwerthfawr
- Plannu a chynnal coed a llwyni
- Cynorthwyo / cyfrannu at fanciau bwyd



## Cofrestru ar gyfer y Siarter

Dilynwch y ddolen i gwblhau'r **ffurflen gofrestru**.



## Beth fydd angen i mi ei wneud?

Bydd adolygiad blynyddol o'r siarter yn holi bob cyflenwr sydd wedi cofrestru i roi rhywfaint o wybodaeth ystadegol sylfaenol ar y gwerth(oedd) cymdeithasol gwirfoddol a gyflwynwyd yn y 12 mis diwethaf.



## Yr Achrediad Gwerth Cymdeithasol

Yn gyfnewid am y gwaith da a wnewch, nid yn unig fydd yn cryfhau eich ymgais i ennill busnes yn y dyfodol gan HGC a CHThGC, gallwch hefyd gael eich cydnabod gydag "achrediad Aur, Arian neu Efydd."

77505 Dyluniwyd ac Argraffwyd gan Heddlu Gogledd Cymru.
Freepik.com